**Cyfeirnod: 02036202**

Ceisiadau am Wybodaeth
information.requests@ofcom.org.uk

6 Awst 2025

## Cais Rhyddid Gwybodaeth: Cais am hawl i wybod

Diolch am eich cais am wybodaeth ynghylch copi o ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg. Daeth y cais hwn i law ar 9 Gorffennaf 2025 ac rydym wedi ei ystyried o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf").

### Eich cais a'n hymateb

*Copi o'ch ymateb i'r "Arolwg o Farn Rhanddeiliaid: Gwaith Rheoleiddiol Comisiynydd y Gymraeg." Rydym yn deall bod yr arolwg hwn wedi cael ei gynnal tua mis Ionawr 2024 a bod y Comisiynydd wedi paratoi ffurflen ar-lein i sefydliadau gyflwyno eu gwybodaeth.*

*Copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad ar Bolisi Gorfodi Drafft Comisiynydd y Gymraeg, a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025.*

Nid yw'r wybodaeth hon gennym ni.

Os oes gennych chi ymholiadau pellach, anfonwch nhw at information.requests@ofcom.org.uk gan ddyfynnu'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol.

Yn gywir,

Ceisiadau am Wybodaeth

**Gofyn am adolygiad mewnol**
Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb a gawsoch i'ch cais am wybodaeth, neu os ydych chi o'r farn fod eich cais wedi cael ei wrthod heb reswm sy'n gyfreithiol ddilys, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Os byddwch chi'n gwneud hynny, bydd yn destun adolygiad annibynnol yn Ofcom. Byddwn naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu'n ei wrthdroi neu'n ei addasu.

Os ydych chi'n dymuno gofyn i ni gynnal adolygiad mewnol, dylech gysylltu â ni cyn pen dau fis i ddyddiad y llythyr hwn. Nid oes dyddiad cau statudol i ni gwblhau ein hadolygiad mewnol, a bydd hyd yr adolygiad yn dibynnu ar ba mor gymhleth yw'r cais. Ond byddwn yn ceisio cwblhau'r adolygiad cyn pen 20 diwrnod gwaith (neu 40 diwrnod gwaith fan bellaf mewn achosion eithriadol) ac yn rhoi gwybod i chi am ein cynnydd. Anfonwch e-bost at y tîm Ceisiadau am Wybodaeth (information.requests@ofcom.org.uk) i wneud cais am adolygiad mewnol.

**Cymryd camau pellach**
Os na fyddwch yn fodlon â chanlyniad ein hadolygiad mewnol, mae gennych hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.